# Atodiad 3 - Geirfa

## A

**AALl** – awdurdod addysg lleol

**Absenoldeb awdurdodedig** - lle mae absenoldeb disgybl wedi'i gytuno gan y sawl a awdurdodwyd ar ei ran gan bennaeth yr ysgol

**Adran Addysg y DU** – adran yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am blant ac addysg yn Lloegr yn unig

**Adroddiad blynyddol -** dylai pob corff llywodraethu baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol o'i waith.

**Addoli ar y cyd –** addoli dyddiol i holl ddisgyblion yr ysgol, sy'n Gristnogol yn bennaf

**Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)** – astudiaeth o'r materion hanfodol sy'n wynebu'r blaned a sut mae unigolion yn chwarae'u rhan wrth helpu i lywio'r dyfodol

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol** – darpariaeth addysg a sefydlwyd i roi addysg addas a phriodol i blant oedran ysgol gorfodol nad ydynt, oherwydd salwch, cael eu gwahardd neu reswm arall, yn gallu mynychu ysgol a gynhelir (hy prif ffrwd neu arbennig). Gallai hyn gynnwys sesiynau tiwtora gartref a ddarperir gan yr ALl, lleoliadau gwaith, hyfforddiant galwedigaethol neu gyrsiau addysg bellach. Nid yw'n cynnwys addysg ddewisol yn y cartref.

**Aelod lleyg** - aelod a benodwyd ar banel apelio yn erbyn dim mynediad neu waharddiad. Rhywun heb brofiad personol o reoli neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol (heblaw fel llywodraethwr neu ar sail wirfoddol).

**Aelod nad yw'n llywodraethwr** – aelod heb bleidlais o'r corff llywodraethu, ond sy'n cael ei benodi i fod yn rhan o'r corff llywodraethu neu ei bwyllgorau oherwydd ei arbenigedd

**Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)** – anawsterau dysgu y mae angen darpariaeth addysgol arbennig o'u herwydd. Mae gan ddysgwr AAA os oes ganddo anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae gan ddysgwr anhawster dysgu os yw'n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o ddysgwyr eraill o'r un oedran, neu os oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n rhwystr iddo rhag defnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran yn ysgolion ardal yr awdurdod lleol.

Caiff y term AAA ei ddisodli â'r term ADY wrth i Ddeddf Anghenion DysguYchwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gael ei roi ar waith fesul cam.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** – mae gan ddysgwr anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster neu anabledd dysgu (boed oherwydd cyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae gan ddysgwr anhawster neu anabledd dysgu os yw'n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o ddysgwyr eraill sydd o'r un oedran, neu os oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n rhwystr iddo rhag defnyddio'r cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif-ffrwd a gynhelir.

**ALl** – awdurdod lleol

**Alldro** – datganiad o union wariant yr ysgol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol

**Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)** – amser penodol a neilltuir yn amserlen athrawon a phenaethiaid i allu codi safonau trwy waith proffesiynol unigol neu ar y cyd, fel y nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

**ANG** – athro newydd gymhwyso

**Arian fformiwla** - dull o gyfrifo cyllidebau ysgolion. Y ffactor pwysicaf yw nifer y disgyblion.

**Arolygydd Ei Mawrhydi (AEM)** – wedi'i benodi gan y Prif Arolygydd i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol

**Asesiad** – trefniadau'r athrawon i fonitro cynnydd a datblygiad dysgwyr

**Asesiad o Wariant Safonol (SSA)** – a ddefnyddir i ddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) i ALlau. Barn y llywodraeth o'r hyn sydd angen i bob ALl ei wario i gyflwyno lefel safonol o wasanaethau

**Asesiad statudol** – asesiad statudol i fonitro cynnydd disgybl pan fo'n saith oed, 11 oed ac 14 oed

**Asesiad sylfaenol** – asesiad statudol a gynhelir o fewn chwe wythnos ar ôl i blentyn ddechrau'r flwyddyn Dderbyn (neu Flwyddyn 1 os nad yw'r plentyn yn dod i'r flwyddyn Dderbyn)

**Atal** – proses o ddweud wrth aelod o'r staff i roi'r gorau i weithio yn yr ysgol am gyfnod dros dro, fel arfer tra bydd ymchwiliad i fater disgyblu sy'n ymwneud ag ef/hi

**Athro peripatetig** – athro sy'n rhoi gwersi arbenigol mewn nifer o ysgolion, er enghraifft cerddoriaeth

**AU** – Addysg Uwch

**Awdurdod derbyn** – ALlau yw'r awdurdodau derbyn sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, oni bai bod y swyddogaeth wedi'i dirprwyo i'r corff llywodraethu. Corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw awdurdod derbyn yr ysgolion hynny.

**Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Yr (HSE)** – corff Prydain gyfan i ddiogelu pobl rhag peryglon iechyd ac i roi sylw i faterion diogelwch yn y gweithle

## B

**Bagloriaeth Cymru** – cymhwyster ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 oed yng Nghymru, sy'n cyfuno sgiliau datblygu personol a chymwysterau fel Safon Uwch, NVQ a TGAU

**Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP)** – sefydliad sy'n rheoli'r broses o ddatblygu, marchnata, hyrwyddo a sicrhau ansawdd Safonau, Modelau a Phroffil Buddsoddwyr mewn Pobl

## C

**CADY** – unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yw CADY. Mae'n rôl statudol ac yn disodli rôl anstatudol flaenorol y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig.

**CALU** – Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch – sydd wedi'i asesu'n ffurfiol yn erbyn safonau CALU, â'r gallu i gyflawni elfennau o waith penodedig

**Canllawiau** – dogfen sy'n rhoi canllawiau ar ddyletswyddau, polisïau a gweithdrefnau. Weithiau, mae Deddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar bwnc penodol. Efallai y bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gorff llywodraethu ddilyn y canllawiau oni bai bod ganddo reswm da iawn dros beidio â gwneud, ac mewn rhai achosion rhaid iddo ddilyn y canllawiau yn ddieithriad.

**Clerc i'r corff llywodraethu** – rhywun a benodir i gyflawni dyletswyddau gweinyddol i'r corff llywodraethu, fel paratoi agenda, cadw cofnodion cyfarfodydd a delio â gohebiaeth

**CLl** – corff llywodraethu

**Cod neu God Ymarfer** – dogfen sy'n rhoi arweiniad ar ddyletswyddau, polisïau a gweithdrefnau. Weithiau, mae Deddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cod i gefnogi ei gweithredu. Efallai y bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu, yn ôl y gyfraith, roi ystyriaeth i God wrth wneud penderfyniadau.

**Cofnod athro** - unrhyw gofnod a gedwir gan athro yn yr ysgol, nad yw at ddefnydd yr athro yn unig. Mae'n rhan o **gofnod addysgol disgybl**.

**Cofnod cwricwlaidd** – cofnod ffurfiol o gyraeddiadau academaidd y disgybl, ynghyd â sgiliau a galluoedd eraill, a'i gynnydd a'i ddatblygiad yn yr ysgol

**Cofnodion addysgol disgyblion** – yn cynnwys cofnod cwricwlaidd y disgybl a chofnodion athro

**Cofrestr bresenoldeb** – bydd cofrestr yn cael ei chymryd ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod y prynhawn. Rhaid iddi gynnwys enwau'r holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

**Cofrestru agored** - rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion hyd at eu niferoedd derbyn. Cyfrifir y nifer ar sail faint o le sydd gan yr ysgol.

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Y (EHRC)** – Comisiwn sy'n gweithio i sicrhau cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb

**Comisiynydd Gwybodaeth** – swydd annibynnol a sefydlwyd i oruchwylio a gorfodi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Mwy o wybodaeth yn www.ico.gov.uk

**Comisiynydd Plant Cymru** – swydd annibynnol a sefydlwyd i hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru

**Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru** – corff annibynnol sydd â chyfrifoldeb dros wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflogau ac amodau athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru

**Cronfa wrth gefn** – arian wrth gefn tuag at gostau annisgwyl

**Cworwm** – nifer y llywodraethwyr sy'n pleidleisio sy'n gorfod bod yn bresennol er mwyn dilysu trafodion cyfarfod o gorff llywodraethu neu bwyllgor

**Cwricwlwm Cenedlaethol** – mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn darparu addysg eang a chytbwys i bob plentyn, ac wedi'i rannu'n gyfnodau allweddol yn ôl oedran (gweler hefyd Cwricwlwm i Gymru).

**Cwricwlwm craidd** – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth – pynciau y mae'n rhaid i bob disgybl eu hastudio

**Cwricwlwm i Gymru** – mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu:

- y gofynion cwricwlwm arfaethedig a nodir mewn deddfwriaeth ar gyfer pob dysgwr 3 i 16, er mwyn sicrhau bod yr un dysgu craidd yn digwydd ym mhob ysgol, a sicrhau dull cyson ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru

- canllawiau i ysgolion eu defnyddio wrth ddatblygu eu cwricwla
- disgwyliadau o ran trefniadau asesu i gefnogi cynnydd y dysgwyr.

**Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)** – darparwr gwasanaethau addysg ac asesu yng Nghymru a Lloegr

**Cydffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon (NCPTA)** – elusen a sefydlwyd i gefnogi cymdeithasau rhieni ac athrawon ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

**Cydweithio** – lle mae dau neu fwy o gyrff llywodraethu'n trefnu i gyflawni rhai o'u swyddogaethau ar y cyd trwy gynnal cyfarfodydd ar y cyd a/neu gael pwyllgorau ar y cyd

**Cyfnod Sylfaen** – fframwaith dysgu ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru

**Cyfnod(au) Allweddol** – cyfnodau datblygu'r plentyn wrth gaffael sgiliau a gwybodaeth yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)** – casgliad statudol o wybodaeth am ysgolion a manylion y disgyblion, nodweddion a'r cwricwlwm

**Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR)** – taliad cyfrifoldeb ar gyfer staff addysgu

**Cyfrifoldeb rhiant** - mae hyn yn golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn ôl y gyfraith. Efallai bod gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant dros yr un plentyn ar yr un adeg, ac nid yw cyfrifoldeb un person yn peidio â bod oherwydd bod gan berson arall gyfrifoldeb dros y plentyn hefyd.

**Cyfwerth ag Amser Llawn** (**FTE)** – cyfran y swydd lawn amser y tybir bod swydd ran-amser yn gyfystyr â hi

**Cyngor y Gweithlu Addysg** – rheoleiddiwr annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru, gan gynnwys athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid/cymorth ieuenctid cymwys ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith

**Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Y (CYEC)** – asiantaeth y DU ar gyfer ymchwil, ariannu a hyfforddiant economaidd a chymdeithasol

**Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog (CYS)** – pwyllgor sy'n cynghori ALl ar faterion sy'n ymwneud ag addysg ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, ac addoli ar y cyd mewn ysgolion

**Cylchlythyr** – datganiad polisi gan Lywodraeth Cymru neu'r Adran Addysg yn Lloegr. Er nad oes ganddo statws cyfreithiol, mae'n rhoi arweiniad ar ddehongli a gweithredu'r gyfraith.

**Cymdeithas Addysg Gatholig (CES)** – corff sy'n cefnogi a hyrwyddo Addysg Gatholig yng Nghymru a Lloegr

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)** – grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdod lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol ym mhob un o ALlau Cymru

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru –** yn cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol Cymru. Mae'r awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Cymhareb disgybl/athro** – nifer y disgyblion fesul athro

**Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)** – cymhwyster cenedlaethol i benaethiaid. Mae unrhyw un sy'n cael ei benodi'n bennaeth am y tro cyntaf yng Nghymru yn gorfod cael y cymhwyster hwn.

**Cymwysterau Cymru** – corff statudol annibynnol, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, i reoleiddio cymwysterau yng Nghymru, ac eithrio graddau

**Cynllun Addysg Unigol (CAU)** – cynllun a baratowyd gan athro dosbarth i helpu i nodi anghenion y plentyn a thargedu meysydd sy'n peri'r anawsterau mwyaf

**Cynllun cyllido** – rhaid i bob awdurdod lleol greu Cynllun Cyllido Ysgolion sy'n nodi'r berthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn ei ardal. Mae'n cynnwys gofynion o ran rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig, a gall nodi pwy sy'n gyfrifol am faterion penodol.

**Cynllun Datblygu Unigol** – dogfen sy'n cynnwys disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol unigolyn a disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anawsterau dysgu'r unigolyn yn galw amdani. Dyma'r cynllun statudol newydd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sy'n disodli datganiadau AAA a chynlluniau anstatudol eraill megis cynlluniau addysg unigol.

**Cynllun Datblygu Ysgol (SDP)** – dogfen allweddol sy'n cyflwyno'r blaenoriaethau a'r strategaethau ar gyfer datblygu'r ysgol dros gyfnod treigl (gweler hefyd Cynllun Gwella Ysgol (SIP)

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)** – contract rhwng darparwr a'r cwsmer sy'n esbonio telerau cyfrifoldeb y darparwr tuag at y cwsmer

## D

**Dangosydd perfformiad** - dangosydd y cytunwyd arno a ddefnyddir i fesur perfformiad ac asesu newidiadau mewn perfformiad

**Dalgylch** – ardal ddaearyddol benodol sy'n bwydo disgyblion i ysgol

**Darpariaeth Addysgol Arbennig (DAA)** – darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwr, sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r ddarpariaeth addysgol a wneir yn gyffredinol i eraill o'i oedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALl, ac eithrio ysgolion arbennig, yn yr ardal

Caiff y term DAA ei ddisodli â'r term DDdY wrth i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gael ei roi ar waith fesul cam.

**Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)** – darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn a ddarperir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif-ffrwd a gynhelir yng Nghymru

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) –** proses sy'n berthnasol i'r holl staff, yn cynnwys cynyddu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth staff

**Datganiad cwricwlwm** – datganiad o egwyddorion sylfaenol y cwricwlwm ac ymrwymiad yr ysgol i ddatblygu pob agwedd ar fywydau disgyblion

**Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig** – dogfen gyfreithiol a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn amlinellu anghenion addysgol arbennig dysgwr, ac yn nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig sydd i'w gwneud er mwyn cyflawni'r anghenion hynny

**Datgymhwyso** – dyma'r term a ddefnyddir pan fo rhannau o ofynion y cwricwlwm cenedlaethol, neu'r holl ofynion, wedi'u codi neu eu newid yn achos disgybl mewn achosion neu amgylchiadau penodedig.

**Deddf** – mae Deddf yn creu cyfraith newydd neu'n newid cyfraith sydd eisoes yn bodoli. Bil sydd wedi'i gymeradwyo gan ddeddfwrfa ac y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddo gan y brenin neu'r frenhines yw Deddf. Gall Senedd Cymru a Senedd y DU greu Deddfau sy'n berthnasol i Gymru.

**Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) –** Deddf sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio prosesu gwybodaeth am unigolion, gan gynnwys cael, cadw, defnyddio neu ddatgelu gwybodaeth o'r fath

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FoI)** – deddfwriaeth sy'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ei darparu ar gais

**Defnydd deuol** - unrhyw ran o safleoedd yr ysgol sy'n cael ei defnyddio gan grwpiau cymunedol ac eraill, boed yn ystod neu y tu allan i oriau ysgol

**Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen** – yn amlinellu'r safonau disgwyliedig o ran perfformiad plant tair i saith oed

**Dirprwyo** – proses lle mae un corff neu berson yn rhoi'r awdurdod i gorff neu berson arall wneud penderfyniadau ar fater penodol

**Disgyblion wedi'u cofrestru** – y disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol. Gweler hefyd NOR – nifer ar y gofrestr

**Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D) –** dogfen a gyhoeddir yn flynyddol, yn ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth yr holl staff addysgu

**Dosbarth mynediad** – ystyrir sawl un o'r rhain a gaiff eu derbyn i'r ysgol bob blwyddyn, grŵp o 30 o ddisgyblion fel rheol.

## E

**Esgobaeth –** ardal o dan awdurdodaeth esgob

**Estyn** – swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Gwasanaeth arolygu annibynnol, dan arweiniad Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

## F

**FaCE** – Family and Community Engagement, pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd, lle mae ysgolion yn estyn allan ac yn cymryd camau i gynnwys y gymuned ym mywyd yr ysgol, a chynnwys yr ysgol ym mywyd y gymuned

## Ff

**Ffederasiwn cyrff llywodraethu** - trefniant lle mae dwy ysgol neu fwy yn uno o dan un corff llywodraethu. Mae'r ysgolion yn parhau ar wahân ond yn cael eu llywodraethu gan un corff.

**Fforwm derbyn** – mae gofyn i bob ardal ALl gael fforwm derbyn. Grwpiau o randdeiliaid derbyn lleol ydynt sy'n craffu ar drefniadau derbyn ac sy'n trafod pa mor effeithiol ydynt.

**Fframwaith Cwricwlwm i Gymru** – gan gynnwys canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r fframwaith hwn yn cael ei bennu'n genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion i gwricwlwm, a fydd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth, ynghyd ag ystod o ganllawiau ategol.

## G

**GNVQ** – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO)** – math o ddeddfwriaeth sy'n trosglwyddo pwerau penodol o San Steffan i Senedd Cymru. Wedi iddo gael ei gymeradwyo, mae'n rhoi'r grym i'r Senedd wneud cyfraith ar gyfer Cymru (a elwir yn fesur) yn y maes y mae'r Gorchymyn yn ymdrin ag ef. Gweler hefyd Mesur.

**Grant Cynnal Refeniw** – mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yng Nghymru, yn bennaf drwy Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r grant hwn wedi'i glustnodi'n benodol; mae'r cyllid a ddyrennir i bob awdurdod ar gael i'r awdurdod ei wario fel y gwêl yn dda ar ystod o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion.

**Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus** – yr Adran yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu addysg yng Nghymru

**Gwahardd** – lle mae'r pennaeth yn gwahardd disgybl o'r ysgol, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol, oherwydd ei ymddygiad

**Gwaith penodedig** – mae Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 yn diffinio pwy gaiff gyflawni gwaith penodedig. Mae gwaith penodedig yn cynnwys cynllunio, paratoi a chyflwyno gwersi, ac asesu ac adrodd ar gynnydd disgyblion.

**Gwariant cyfalaf** – gwario ar brosiectau adeiladu ac eitemau mawr

**Gwariant presennol** – faint o arian sy'n cael ei wario ar redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, gan gynnwys costau staff, gwresogi a goleuo, defnyddiau traul ac ati. Fe'i gelwir yn wariant rheolaidd, weithiau.

**Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu, Y (ACAS)** – sefydliad gwladol sy'n canolbwyntio ar atal a datrys anghydfodau cyflogaeth yn y gwaith

**Gwerthuso** – proses o asesu pa mor dda mae aelod o'r staff yn gwneud ei waith

**Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, Y (NASEN)** – sefydliad y DU sydd â'r nod o hyrwyddo addysg, hyfforddiant a datblygiad rhai sydd ag anableddau ac anghenion cymorth arbennig neu ychwanegol

## H

**Hyfforddiant mewn Swydd (HMS)** – hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff sy'n gweithio mewn ysgolion – cyrsiau byrion neu gynadleddau dydd fel arfer

## I

**Is-ddeddfwriaeth** – a elwir hefyd yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig; cyfraith a wneir gan Weinidog, neu yn achlysurol gan gorff cyhoeddus, o dan bwerau a roddir iddo gan Ddeddfau Senedd Cymru neu Senedd y DU, neu Fesurau'r Cynulliad, er mwyn gweithredu a gweinyddu gofynion deddfwriaeth sylfaenol. Daw is-ddeddfwriaeth ar nifer o ffurfiau, gan gynnwys gorchmynion a rheoliadau.

## L

**Legislation.gov.uk** – yn darparu canllawiau am gyhoeddi swyddogol ac am ystod o faterion hawlfraint a mynediad, a mynediad hwylus at ddeddfwriaeth Cymru a'r DU

## Ll

**LlC** – Llywodraeth Cymru

**Llywodraethwr ALl** – categori llywodraethwr, wedi'i benodi gan yr ALl

**Llywodraethwr cymunedol** - rhywun a benodir yn llywodraethwr y mae'r corff llywodraethu yn ystyried ei fod wedi ymrwymo i arferion llywodraethu da a llwyddiant yr ysgol. Gall y llywodraethwr hwn fyw neu weithio yng nghymuned yr ysgol neu beidio.

**Llywodraethwr ex-officio** – rhywun sydd eisoes yn llywodraethwr neu sy'n gallu mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu yn rhinwedd ei swydd, er enghraifft pennaeth

**Llywodraethwr sefydledig** – rhywun a benodir i fod yn aelod o gorff llywodraethu'r ysgol, ond nid gan ALl, i sicrhau bod yr ysgol yn cadw ei chymeriad crefyddol penodol neu'n ei arddel yn unol ag amodau dogfen ymddiriedolaeth (neu, os nad oes gan ysgol gymeriad crefyddol na dogfen ymddiriedolaeth, caiff yr unigolyn ei benodi'n llywodraethwr sefydledig)

## M

**Mesur –** Yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd y Senedd yn arfer creu Mesurau'r Cynulliad. Roedd y rhain yn debyg i Fesurau Seneddol. Roedd y Mesurau'n creu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru.

**Meysydd Dysgu** – rhaglenni addysg statudol sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

**Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)** – disgrifiad o rannau gwahanol Cwricwlwm i Gymru

**Meysydd llafur cytûn** – maes llafur addysg grefyddol nad yw'n canolbwyntio ar un grefydd yn unig, a fabwysiadwyd gan ALl er mwyn addysgu mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir. CYS sy'n datblygu'r cwrs hwn (gweler uchod).

## N

**Nifer Derbyn** – y nifer penodedig o blant (na fydd fel rheol yn is na'r nifer a gyfrifir ar sail capasiti'r ysgol) y mae'n rhaid i ysgol eu derbyn os daw digon o geisiadau i law, yn unol â'r prosbectws blynyddol. Mae'r nifer hwn yn arwyddo'r lle sydd o fewn yr ysgol i ddisgyblion.

**NOR** – nifer ar y gofrestr

**NRA** – Cofnod Cenedlaethol o Gyrhaeddiad

**NVQ** – Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol

## O

**Offeryn llywodraethu** – dogfen gyfreithiol sy'n darparu cyfansoddiad corff llywodraethu'r ysgol

**Offeryn Statudol (OS)** – dull o greu is-ddeddfwriaeth (gweler uchod). Rhaid argraffu a chyhoeddi offeryn statudol mewn ffordd benodol a amlinellir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946.

## P

**Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)** – mae'n ofynnol i bob ALl sefydlu'r corff hwn i oruchwylio'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

**Penderfyniad** – cynnig ffurfiol a wnaed mewn cyfarfod, y pleidleisiwyd ac y cytunwyd arno

**Pleidlais** – dull pleidleisio, cyfrinachol fel arfer

**Pleidlais fwrw** – pleidlais ychwanegol a ddefnyddir gan y sawl sy’n cadeirio cyfarfod corff llywodraethu neu bwyllgor os bydd nifer cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig

**Plentyn sy’n derbyn gofal** - plentyn sy’n derbyn gofal ALl, neu sy’n cael llety gan ALl o dan gytundeb gwirfoddol gyda’i rieni, neu sy’n destun gorchymyn gofal - fel y diffinnir yn Neddf Plant 1989

**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (HMCI)** – Pennaeth Estyn (gweler Estyn)

**Prif Swyddog Addysg (CEO)** - swyddog ALl sy’n gyfrifol am faterion addysg

**Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol** – profion darllen a rhifedd statudol blynyddol ar gyfer blwyddyn 2 i flwyddyn 9

**Proffil y Cyfnod Sylfaen** – adnodd asesu sy’n alinio asesiadau o’r pwynt mynediad hyd ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

**Prydau Ysgol am Ddim (FSM)** – prydau i’w darparu i ddisgyblion y mae eu teuluoedd, neu y maen nhw eu hunain, yn derbyn taliadau cymorth penodol

**PTA** – Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

## R

**ROA** – Cofnod cyrhaeddiad

**RVE** – addysg am grefydd, gwerthoedd a moeseg

## Rh

**Rheoliadau** – math o is-ddeddfwriaeth (gweler uchod)

**Rhiant** – yn cynnwys unrhyw un sydd â’r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn ôl y gyfraith. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, felly, gall ‘rhiant’ gynnwys nid yn unig rhieni naturiol y plentyn, ond eraill fel llys-rieni, perthnasau, rhai sy’n cyd-fyw gyda’r naill riant neu’r llall, a rhieni maeth, yn ogystal â phobl y mae’r plentyn yn eu gofal.

**Rhiant-lywodraethwr** – rhiant wedi’i ethol gan rieni eraill â phlant yn yr ysgol, i wasanaethu ar gorff llywodraethu a chynrychioli eu buddiannau nhw. Efallai y caiff ei benodi gan y corff llywodraethu os nad oedd modd llenwi swydd trwy etholiad.

**Rhiant-lywodraethwr cynrychioliadol** - rhiant-lywodraethwr wedi’i ethol gan riant-lywodraethwyr eraill mewn ardal ALl, i’w cynrychioli ar bwyllgorau ALl sy’n ymwneud ag addysg

## S

**SAC** – Statws Athro Cymwysedig

**Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)** – lle nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf

**Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Y (SCYA)** – sefydliad annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ymchwil, asesu a gwybodaeth ym meysydd addysg, hyfforddiant a gwasanaethau plant

**Senedd Cymru** – 60 aelod y Senedd (ASau) a etholwyd gan bobl Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd yr enw arni hyd 6 Mai 2020.

**SIP** – Cynllun Gwella Ysgolion (gweler Cynllun Datblygu Ysgol (SDP) hefyd)

**SMT** – uwch dîm rheoli (yr ysgol)

**STA** – asesiadau athro statudol

**Swyddfa Archwilio Cymru** - corff annibynnol sy'n craffu ar wariant cyrff cyhoeddus yng Nghymru

**Swyddfa Safonau mewn Addysg (OfSTED)** – arolygiaeth plant a dysgwyr yn Lloegr yn unig

**Swyddog Lles Addysg (EWO)** – swyddog a gyflogir gan ALl sy'n gweithio gydag ysgolion, plant, rhieni ac ati, i hyrwyddo'r syniad o fynychu'r ysgol yn rheolaidd, ymdrin ag absenoldebau a helpu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd

**System Gwybodaeth Reoli** – system electronig ar gyfer cofnodi holl fusnes ysgol, megis presenoldeb a gwybodaeth am gyfrifiadau eraill

## T

**TA** – Cynorthwyydd Addysgu

**TAR** – Tystysgrif Addysg i Raddedigion – cymhwyster athrawon

**Targedau presenoldeb** – targedau cyffredinol wedi'u pennu gan gyrff llywodraethu er mwyn lleihau absenoldebau

**TGAU** – Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

**TGCh** – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

## U

**UPN** – Rhif Unigryw'r Disgybl

**ULN –** Rhif Unigryw'r Dysgwr

**Uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl (AWPU) –** faint o arian mae ysgol yn ei gael fesul disgybl o dan y gyllideb ddirprwyedig

**Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)** – uned a sefydlwyd i ddarparu addysg addas a phriodol i blant o oedran ysgol gorfodol na allent fynychu ysgol a gynhelir (prif ffrwd neu arbennig), oherwydd salwch, cael eu gwahardd neu reswm arall

## Y

**Ysgol a gynhelir** – ysgol o dan gyfrifoldeb ariannol a gweinyddol ALl

**Ysgol a gynhelir gan yr ALl** - gweler Ysgol a gynhelir

**Ysgol annibynnol** - unrhyw ysgol sy'n darparu addysg lawn amser i bump neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol neu o leiaf un disgybl yr oedran hwnnw sydd â chynllun addysg, iechyd a gofal neu ddatganiad neu gynllun datblygu unigol, neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989 neu adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nad yw'n ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

**Ysgol arbennig a gynhelir** - ysgol arbennig sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant â datganiadau statudol o AAA neu gynlluniau datblygu unigol, o dan gyfrifoldeb ariannol a gweinyddol ALl

**Ysgol arbennig gymunedol** - Ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Yr ALl sy'n berchen arni ac yn ei chynnal yn gyfan gwbl, a'r ALl sy'n gyfrifol am gontractau cyflogaeth staff.

**Ysgol arbennig sefydledig** – fel ysgol sefydledig, ond yn wahanol gan ei bod yn gwasanaethu plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA)

**Ysgol feithrin a gynhelir** – ysgol sy'n darparu addysg i blant tair i bump oed, a gynhelir gan ALl

**Ysgol gymunedol** – ysgol a berchnogir ac a gynhelir yn gyfan gwbl gan yr ALl, a lle mae'r ALl yn gyfrifol am gontractau cyflogaeth staff

**Ysgol sefydledig** – Math o ysgol wladol a gyflwynwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

**Ysgol wirfoddol a gynhelir (VA)** – mae'r corff llywodraethu yn berchen ar ei safleoedd ei hun ac yn gyfrifol am gyflogi staff, a'r awdurdod lleol sy'n darparu arian refeniw

**Ysgol wirfoddol a reolir (VC)** – sefydliad gwirfoddol sy'n berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol yn aml, ond yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff ac yn bennaf gyfrifol am drefniadau derbyn